

PENDERFYNIADIAU AELOD CABINET UNIGOL
COFNOD PENDERFYNIADAU

DYDDIAD GWNEUD PENDERFYNIAD: Dydd Mercher, 25 Hydref 2023

DAW'R PENDERFYNIAD I RYM AR: Dydd Gwener, 3 Tachwedd 2023

Gall penderfyniadau a wneir gan y cabinet llawn ac aelodau unigol o'r cabinet gael eu "Galw Mewn" gan y Pwyllgor Dethol perthnasol. Os caiff penderfyniad ei alw mewn, ni fydd yn dod i rym fel y nodir uchod a chaiff ei gyflwyno eto maes o law.

Eitem Rhif	Teitl	Diben, Ymgynghoriad ac Awdur	Datganiad Diddordeb	Penderfyniad
1	GWEITHGOR CRONFA EGLWYS CYMRU	Fel y nodir yn yr adroddiad	Dim	<p>DATRYYS: Penderfynodd y pwyllgor y dylai'r grantiau canlynol gael eu rhoi yn unol â'r amserlen ceisiadau:</p> <p>AMSERLEN CEISIADAU A YSTYRIR 2022/23 – CYFARFOD 2</p> <p>Neuadd Hamdden Porthsgiwed a Sudbrook Gwnaethant gais am £2,000 ar gyfer gosod goleuadau diogelwch PIR a pheintio'r adeilad er mwyn ei amddiffyn ymhellach yn erbyn y tywydd yn ogystal ag er mwyn gwneud iddo edrych yn fwy deniadol.</p> <p>Argymhelliad: rhoi £1,000 er mwyn cynorthwyo'r grŵp cymunedol yma i uwchraddio'r cyfleusterau cymunedol a lleihau pryderon o ran diogelwch.</p> <p>Eglwys y Santes Fair, Magwyr gwnaethant gais am £1,500 ar gyfer gosod goleuadau effeithlon LED fwy gwyrdd yn nho corff yr eglwys, rhes y Gogledd a rhes y De yn lle'r goleuadau Halogen sydd yno'n barod.</p> <p>Argymhelliad: rhoi £1,500 i gynorthwyo i adnewyddu goleuadau'r eglwys a gosod goleuadau sy'n fwy effeithlon o ran ynni.</p> <p>Cyfeillion Priordy Cas-gwent – gwnaethant gais am £3,000 er mwyn eu cynorthwyo i atgyweirio Cloc yr Eglwys ac adnewyddu grisiau'r tŵr gan eu bod yn rhan o integredd yr adeilad.</p> <p>Argymhelliad: Rhoi £3,000 er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o atgyweirio Cloc yr Eglwys ac adnewyddu'r tŵr hanesyddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.</p>
Additional Information:				
		Fel y nodir yn yr adroddiad	Dim	